***Statws*** *This is the original version (as it was originally made). Dim ond ar ei ffurf wreiddiol y mae'r eitem hon o ddeddfwriaeth ar gael ar hyn o bryd.*

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2008 Rhif 2701 (Cy.241)

# PRIFFYRDD, CYMRU

## Gorchymyn Cefnffordd Caerdydd i Lan Conwy (yr A470) (Gwelliant Penloyn i Dan Lan) 2008

| | | |
|---|---|---|
| *Wedi'i wneud* | - - | *10 Hydref 2008* |
| *Yn dod i rym* | - - | *30 Hydref 2008* |

Mae Gweinidogion Cymru, wrth arfer pwerau a roddir gan adran 10 o Ddeddf Priffyrdd 1980(**1**) a phob pwer galluogi arall(**2**), drwy hyn yn gwneud y Gorchymyn a ganlyn:

**1.** Daw'r priffyrdd newydd y mae Gweinidogion Cymru yn bwriadu eu hadeiladu ar hyd y llwybrau a ddisgrifir yn Atodlen 1 i'r Gorchymyn hwn yn gefnffyrdd o'r dyddiad y daw'r Gorchymyn hwn i rym.

**2.** Mae llinellau canol y cefnffyrdd newydd yn cael eu dangos gan linellau duon trymion ar y plan a adneuwyd.

**3.** Bydd y darn o gefnffordd a ddisgrifir yn Atodlen 2 i'r Gorchymyn hwn, ac a ddangosir â llinellau lletraws â stribedi bras ar y map a adneuwyd yn peidio â bod yn gefnffordd ac yn dod yn ffordd ddiddosbarth o'r dyddiad y bydd Llywodraeth Cynulliad Cymru yn hysbysu Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy fod y cefnffyrdd newydd wedi'u hagor ar gyfer traffig trwodd.

**4.** Yn y Gorchymyn hwn:

mesurir pob mesur pellter ar hyd llwybr y briffordd berthnasol;

i. ystyr "y plan a adneuwyd" ("*the deposited plan*") yw'r plan sy'n dwyn y Rhif HA 10/2 NAFW 17 ac sydd wedi'i farcio Gorchymyn Cefnffordd Caerdydd i Lan Conwy (yr A470) (Gwelliant Penloyn i Dan Lan) 2008 ac sydd wedi'i lofnodi ar ran Gweinidogion Cymru ac a adneuwyd yn Uned Storio ac Adfer Cofnodion Llywodraeth Cynulliad Cymru (RSRU), Neptune Point, Ocean Way, Caerdydd;

ii. ystyr "y gefnffordd" ("*the trunk road*") yw Cefnffordd Caerdydd i Lan Conwy (yr A470);

iii. "y cefnffyrdd newydd" ("*the new trunk roads*") yw'r priffyrdd a grybwyllir yn erthygl 1 o'r Gorchymyn hwn ac ystyr 'cefnffordd newydd' yw un o'r cefnffyrdd hynny.

**5.** Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 30 Hydref 2008 a'i enw yw "Gorchymyn Cefnffordd Caerdydd i Lan Conwy (yr A470) (Gwelliant Penloyn i Dan Lan) 2008"

(**1**) 1980 p.66.

(**2**) Yn rhinwedd O. S. 1999/672 erthygl 2 ac Atodlen 1, a pharagraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, mae'r pwerau hyn wedi'u trosglwyddo bellach i Weinidogion Cymru o ran Cymru.

Llofnodwyd o dan awdurdod y Gweinidog dros Economi a Thrafnidiaeth, un o Weinidogion Cymru.

*S C Shouler*
Cyfarwyddwr Cynllunio a Gweinyddu Trafnidiaeth Llywodraeth Cynulliad Cymru.

10 Hydref 2008

## ATODLEN 1

### LLWYBRU'R CEFNFFYRDD NEWYDD

Dyma lwybrau'r cefnffyrdd newydd, sy'n llwybrau i'r gogledd o Lanrwst rhwng Penloyn a Than Lan ym Mwrdeistref Sirol Conwy:—

(1) llwybr oddeutu 0.14 cilometr o hyd, yn cychwyn wrth bwynt 390 o fetrau i'r de o ganol y gyffordd rhwng cefnffordd bresennol yr A470 a'r ffordd ddiddosbarth i Landdoged yn Nhan Lan (a ddangosir â'r llythyren A ar y plan a adneuwyd) ac yn ymestyn i gyfeiriad y gogledd at bwynt 250 o fetrau i'r de o ganol y gyffordd rhwng cefnffordd bresennol yr A470 a'r ffordd ddiddosbarth i Landdoged yn Nhan Lan (a ddangosir â'r llythyren B ar y plan a adneuwyd).

(2) llwybr oddeutu 0.79 cilometr o hyd, yn cychwyn wrth bwynt 110 o fetrau i'r de o ganol y gyffordd rhwng cefnffordd bresennol yr A470 a'r ffordd ddiddosbarth i Landdoged yn Nhan Lan (a ddangosir â'r llythyren C ar y plan a adneuwyd) ac yn ymestyn i gyfeiriad y gogledd at bwynt 680 o fetrau i'r gogledd o ganol y gyffordd rhwng cefnffordd bresennol yr A470 a'r ffordd ddiddosbarth i Landdoged yn Nhan Lan (a ddangosir â'r llythyren D ar y plan a adneuwyd).

## ATODLEN 2

### Y DARN O GEFNFFORDD SY'N PEIDIO Å BOD YN GEFNFFORDD

Y darn o gefnffordd sy'n peidio â bod yn gefnffordd yw'r darn hwnnw o gefnffordd yr A470 ym Mwrdeistref Sirol Conwy sydd oddeutu 0.79 cilometr o hyd ac sydd rhwng pwynt 110 o fetrau i'r de o ganol y gyffordd rhwng cefnffordd bresennol yr A470 a'r ffordd ddiddosbarth i Landdoged yn Nhan Lan (a ddangosir â'r llythrennau CC ar y plan a adneuwyd) ac yn ymestyn i gyfeiriad y gogledd at bwynt 680 o fetrau i'r gogledd o ganol y gyffordd rhwng cefnffordd bresennol yr A470 a'r ffordd ddiddosbarth i Landdoged yn Nhan Lan (a ddangosir â'r llythrennau DD ar y plan a adneuwyd).